OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 Rhif 1521 (Cy. 325)

# 2020 No. 1521 (W. 325)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# PUBLIC HEALTH, WALES

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

## The Health Protection (Coronavirus, International Travel and Public Health Information to Travellers) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595 (Cy. 136)) ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/574 (W. 132)) (the "International Travel Regulations") and the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations (S.I. 2020/595 (W. 136)) ("the Public Health Information Regulations").

The International Travel Regulations have been previously amended by:

- the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020 (S.I. 2020/595) (W. 136);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Public Health Information to Travellers) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (S.I. 2020/714) (W. 160);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (S.I. 2020/726) (W. 163);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886) (Cy. 196);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/917) (Cy. 205);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 (O.S. 2020/944) (Cy. 210);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/962) (Cy. 216);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020 (O.S. 2020/981) (Cy. 220);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020 (O.S. 2020/1015) (Cy. 226);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 (O.S. 2020/1042) (Cy. 231);
- Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, Materion y Gymanwlad a Materion Datblygu) 2020 (O.S. 2020/942);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020 (O.S. 2020/1080) (Cy. 243);

- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020 (S.I. 2020/804) (W. 177);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2020 (S.I. 2020/817) (W. 179);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 4) Regulations 2020 (S.I. 2020/840) (W. 185);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 5) Regulations 2020 (S.I. 2020/868) (W. 190);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 6) Regulations 2020 (S.I. 2020/886) (W. 196);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 7) Regulations 2020 (S.I. 2020/917) (W. 205);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 8) Regulations 2020 (S.I. 2020/944) (W. 210);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 9) Regulations 2020 (S.I. 2020/962) (W. 216);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 10) Regulations 2020 (S.I. 2020/981) (W. 220);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 11) Regulations 2020 (S.I. 2020/1015) (W. 226);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 12) Regulations 2020 (S.I. 2020/1042) (W. 231);
- the Transfer of Functions (Secretary of State for Foreign, Commonwealth and Development Affairs) Order (S.I. 2020/942);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 13) Regulations 2020 (S.I. 2020/1080) (W. 243);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020 (O.S. 2020/1098) (Cy. 249);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2020 (O.S. 2020/1133) (Cy. 258);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2020 (O.S. 2020/1165) (Cy. 263);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020 (O.S. 2020/1191) (Cy. 269);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020 (O.S. 2020/1223) (Cy. 277);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020 (O.S. 2020/1232) (Cy. 278);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1237) (Cy. 279);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1288) (Cy. 286);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020 (O.S. 2020/1329) (Cy. 295);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020 (O.S. 2020/1362) (Cy. 301);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1477) (Cy. 316).

Diwygiwyd y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);

- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 14) Regulations 2020 (S.I. 2020/1098) (W. 249);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 15) Regulations 2020 (S.I. 2020/1133) (W. 258);
- the Health Protection (Coronavirus International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 16) Regulations 2020 (S.I. 2020/1165) (W. 263);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 17) Regulations 2020 (S.I. 2020/1191) (W. 269);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 18) Regulations 2020 (S.I. 2020/1223) (W. 277);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 19) Regulations 2020 (S.I. 2020/1232) (W. 278);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1237) (W. 279);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (No. 2) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1288) (W. 286);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 20) Regulations 2020 (S.I. 2020/1329) (W. 295);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 21) Regulations 2020 (S.I. 2020/1362) (W. 301);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (No. 3) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1477) (W. 316).

The Public Health Information Regulations have been previously amended by:

- the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Public Health Information to Travellers) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (S.I. 2020/714) (W. 160);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/1118) (Cy. 253).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol hefyd yn rhoi pwerau i bersonau penodedig mewn amgylchiadau penodedig i ddyroddi hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas â throseddau a gyflawnir o dan y rheoliadau, gan gynnwys mewn perthynas â throseddau o fethu â chydymffurfio â'r gofynion i ynysu.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau (neu rannau o wledydd a thiriogaethau) a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a'r rhannau o wledydd a thiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor y cofnod ar gyfer yr Ynysoedd Dedwydd o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Mae rheoliad 4 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu Botswana a Saudi Arabia at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliadau 3 a 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd a'r tiriogaethau hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliadau 2 a 4 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio swm yr hysbysiad cosb benodedig y caniateir ei ddyroddi o dan reoliad 16(6) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn rhoi graddfa symudol sy'n dechrau ar £500 ar gyfer trosedd gyntaf yn lle'r swm penodedig o £1000.

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth y Cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gwasanaethau masnachol i deithwyr sy'n cyrraedd Cymru ar lestr neu awyren ddarparu gwybodaeth benodol i deithwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny. Mae'r wybodaeth yn ymwneud â mesurau sy'n cael eu cymryd yn y Deyrnas Unedig mewn ymateb i'r coronafeirws, gan

- the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) (Amendment) Regulations 2020 (S.I. 2020/1118) (W. 253).

The International Travel Regulations impose requirements on persons entering Wales after having been abroad. They include a requirement for persons arriving in Wales to isolate for a period determined in accordance with those Regulations.

The requirements imposed by the International Travel Regulations are subject to exceptions, and certain categories of person are exempt from having to comply. The International Travel Regulations also confer powers on specified persons in specified circumstances to issue fixed penalty notices in relation to offences committed under the regulations, including in relation to offences for failure to comply with the requirements to isolate.

Persons entering Wales after being in one or more of the countries and territories (or parts of countries and territories) listed in Schedule 3 to the International Travel Regulations are not required to isolate. The countries and territories and parts of countries and territories listed in Schedule 3 are referred to as "exempt countries and territories".

Part 2 of these Regulations amends the list of exempt countries and territories. Regulation 2 amends the International Travel Regulations to remove the entry for the Canary Islands from the list of exempt countries and territories. Regulation 4 amends the International Travel Regulations to add Botswana and Saudi Arabia to the list of exempt countries and territories.

Regulations 3 and 5 of these Regulations make transitional provision in connection with these countries' and territories' change of status. The transitional provisions address a potential area of doubt in terms of the effect on the operation of the International Travel Regulations, of the amendments made by regulations 2 and 4 of these Regulations.

Part 3 of these Regulations amends the amount of the fixed penalty notice that may be issued under regulation 16(6) of the International Travel Regulations. Regulation 6 of these Regulations replaces the fixed sum of £1000 with a sliding scale starting at £500 for a first offence.

The Public Health Information Regulations require the operators of commercial air or sea passenger services that arrive in Wales to provide certain information to passengers using those services. The information relates to measures being taken in the United Kingdom in response to coronavirus, including

gynnwys mesurau sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd. Mae rheoliadau 7 a 9 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol o ganlyniad i'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1477) (Cy. 316) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn lleihau'r cyfnod y mae'n rhaid i berson ynysu o 14 o ddiwrnodau i 10 niwrnod.

Mae rheoliad 8 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio swm yr hysbysiad cosb benodedig y caniateir ei ddyroddi o dan reoliad 7(1) o'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd. Mae rheoliad 7 o'r Rheoliadau hyn yn rhoi graddfa symudol sy'n dechrau ar £1000 am drosedd gyntaf yn lle'r swm penodedig o £4000.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

measures required by the International Travel Regulations.

Part 4 of these Regulations amends the Public Health Information Regulations. Regulations 7 and 9 of these Regulations make consequential amendments as a result of the amendments made by the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (No. 3) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1477) (W. 316) to the International Travel Regulations to reduce the period for which a person is required to isolate from 14 days to 10 days.

Regulation 8 of these Regulations amends the amount of the fixed penalty notice that may be issued under regulation 7(1) of the Public Health Information Regulations. Regulation 7 of these Regulations replaces the fixed sum of £4000 with a sliding scale starting at £1000 for a first offence.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1521 (Cy. 325)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

*Gwnaed* *am 2.04 p.m. ar 11 Rhagfyr 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *am 6.00 p.m. ar 11 Rhagfyr 2020*

*Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 12 Rhagfyr 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 12 Rhagfyr 2020.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 No. 1521 (W. 325)

# PUBLIC HEALTH, WALES

## The Health Protection (Coronavirus, International Travel and Public Health Information to Travellers) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020

*Made* *at 2.04 p.m. on 11 December 2020*

*Laid before Senedd Cymru* *at 6.00 p.m. on 11 December 2020*

*Coming into force at 4.00 a.m. on 12 December 2020*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 45B and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(**1**), make the following Regulations.

## PART 1

### General

**Title, coming into force and interpretation**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Public Health Information to Travellers) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020.

(2) These Regulations come into force at 4.00 a.m. on 12 December 2020.

(**1**) 1984 c. 22. Part 2A was inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The function of making regulations under Part 2A is conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister as respects Wales, is the Welsh Ministers.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd" ("*the Public Health Information Regulations*") yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020(**1**);

ystyr "y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" ("*the International Travel Regulations*") yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**2**).

# RHAN 2

## Diwygiadau i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Hepgor gwledydd o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin**

**2.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer y cofnod a ganlyn—

"Yr Ynysoedd Dedwydd".

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2**

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 12 Rhagfyr 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod yn yr Ynysoedd Dedwydd ddiwethaf—

(i) o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn 4.00 a.m. ar 12 Rhagfyr 2020.

(**1**) O.S. 2020/595 (Cy. 136), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/714 (Cy. 160) ac O.S. 2020/1118 (Cy. 253).

(**2**) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301) ac O.S. 2020/1477 (Cy. 316).

(3) In these Regulations—

"the International Travel Regulations" ("*y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol*") means the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020(**1**);

"the Public Health Information Regulations" ("*y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd*") means the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020(**2**).

# PART 2

## Amendments to the list of exempt countries and territories outside the common travel area in Schedule 3 to the International Travel Regulations

**Removal of countries from the list of exempt countries and territories outside the common travel area**

**2.** In Part 1 of Schedule 3 to the International Travel Regulations (exempt countries and territories outside the common travel area), omit the following entry—

"Canary Islands".

**Transitional provision in connection with regulation 2**

**3.**—(1) Paragraph (2) applies where a person ("P")—

(a) arrives in Wales at or after 4.00 a.m. on 12 December 2020, and

(b) was last in the Canary Islands—

(i) within the period of 10 days ending with the day of P's arrival in Wales, and

(ii) before 4.00 a.m. on 12 December 2020.

(**1**) S.I. 2020/574 (W. 132), amended by S.I. 2020/595 (W. 136), S.I. 2020/714 (W. 160), S.I. 2020/726 (W. 163), S.I. 2020/804 (W. 177), S.I. 2020/817 (W. 179), S.I. 2020/840 (W. 185), S.I. 2020/868 (W. 190), S.I. 2020/886 (W. 196), S.I. 2020/917 (W. 205), S.I. 2020/942, S.I. 2020/944 (W. 210), S.I. 2020/962 (W. 216), S.I. 2020/981 (W. 220), S.I. 2020/1015 (W. 226), S.I. 2020/1042 (W. 231), S.I. 2020/1080 (W. 243), S.I. 2020/1098 (W. 249), S.I. 2020/1133 (W. 258), S.I. 2020/1165 (W. 263), S.I 2020/1191 (W. 269), S.I. 2020/1223 (W. 277), S.I. 2020/1232 (W. 278), S.I. 2020/1237 (W. 279), S.I. 2020/1288 (W. 286), S.I. 2020/1329 (W. 295), S.I. 2020/1362 (W. 301) and S.I. 2020/1477 (W. 316).

(**2**) S.I. 2020/595 (W. 136), amended by S.I. 2020/714 (W.160) and S.I. 2020/1118 (W. 253).

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod yn yr Ynysoedd Dedwydd, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

**Ychwanegiadau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin**

**4.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y lle priodol mewnosoder—

"Gweriniaeth Botswana"

"Teyrnas Saudi Arabia".

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 4**

**5.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan, yn union cyn 4.00 a.m. ar 12 Rhagfyr 2020—

(a) oedd person ("P") yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu yn rhinwedd y ffaith iddo gyrraedd Cymru o wlad a restrir yn rheoliad 4, neu ar ôl bod mewn gwlad o'r fath, a

(b) diwrnod olaf ynysiad P yw 12 Rhagfyr 2020 neu ddiwrnod ar ôl y diwrnod hwnnw.

(2) Nid yw ychwanegu'r gwledydd a restrir yn rheoliad 4 at Ran 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofyniad i ynysu fel y mae'n gymwys i P, nac ar y modd y pennir diwrnod olaf ynysiad P o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4.00 a.m. ar 12 Rhagfyr 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad a restrir yn rheoliad 4 o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

(4) At ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae'r cwestiwn o ran a yw P wedi cyrraedd Cymru o wlad nad yw'n esempt neu ar ôl bod mewn gwlad o'r fath i'w bennu, mewn perthynas â gwlad a restrir yn rheoliad 4, drwy gyfeirio at ba un a oedd y wlad yn wlad nad oedd yn esempt pan oedd P yno ddiwethaf (ac nid drwy gyfeirio at statws y wlad pan fo P yn cyrraedd Cymru).

(2) P is, by virtue of having been in the Canary Islands to be treated for the purposes of regulations 7(1) and 8(1) of the International Travel Regulations as having arrived in Wales from, or having been in, a non-exempt country or territory.

**Additions to the list of exempt countries and territories outside the common travel area**

**4.** In Part 1 of Schedule 3 to the International Travel Regulations (exempt countries and territories outside the common travel area), at the appropriate place insert—

"Kingdom of Saudi Arabia"

"Republic of Botswana".

**Transitional provision in connection with regulation 4**

**5.**—(1) Paragraph (2) applies where, immediately before 4.00 a.m. on 12 December 2020—

(a) a person ("P") was subject to an isolation requirement by virtue of having arrived in Wales from, or having been in a country listed in regulation 4, and

(b) P's last day of isolation is 12 December 2020 or a day after that day.

(2) The addition of the countries listed in regulation 4 to Part 1 of Schedule 3 to the International Travel Regulations does not affect the isolation requirement as it applies to P, nor affect how P's last day of isolation is determined under the International Travel Regulations.

(3) Paragraph (4) applies where a person ("P")—

(a) arrives in Wales at or after 4.00 a.m. on 12 December 2020, and

(b) was in a country listed in regulation 4 within the period of 10 days ending with the day of P's arrival in Wales.

(4) For the purposes of regulations 7(1) and 8(1) of the International Travel Regulations, the question of whether P has arrived in Wales from, or having been in, a non-exempt country or territory is, in relation to a country listed in regulation 4, to be determined by reference to whether the country was a non-exempt country when P was last there (and not by reference to the country's status upon P's arrival in Wales).

(5) Yn y rheoliad hwn, mae i “gofyniad i ynysu” yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; ac mae cyfeiriadau at ddiwrnod olaf ynysiad P i’w dehongli yn unol â rheoliad 12 o’r Rheoliadau hynny.

(5) In this regulation, “isolation requirement” has the meaning given by regulation 10(2) of the International Travel Regulations; and references to P’s last day of isolation are to be interpreted in accordance with regulation 12 of those Regulations.

## RHAN 3

### Diwygiadau i Ran 4 o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

## PART 3

### Amendments to Part 4 of the International Travel Regulations

**Diwygiadau i Ran 4 (gorfodi a throseddau) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

**6.**—(1) Mae rheoliad 16 (hysbysiadau cosb benodedig) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (6), yn lle “rhaid i’r swm a bennir o dan baragraff (5)(c) fod yn £1000” rhodder “mae’r swm a bennir o dan baragraff (5)(c) i fod fel a nodir ym mharagraff (6A)”.

(3) Ar ôl paragraff (6), mewnosoder—

“(6A) Mae’r swm a bennir yn gosb benodedig ym mharagraff (6) i fod—

(a) yn achos yr hysbysiad cosb benodedig cyntaf a geir, yn £500;

(b) yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig a geir, yn £1000;

(c) yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig a geir, yn £2000;

(d) yn achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig a geir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig a geir wedi hynny, yn £4000.”

**Amendments to Part 4 (enforcement and offences) of the International Travel Regulations**

**6.**—(1) Regulation 16 of the International Travel Regulations (fixed penalty notices) is amended as follows.

(2) In paragraph (6), for “must be £1000” substitute “is to be as set out in paragraph (6A)”.

(3) After paragraph (6), insert—

“(6A) The amount specified as the fixed penalty in paragraph (6) is to be—

(a) in the case of the first fixed penalty notice received, £500;

(b) in the case of the second fixed penalty notice received, £1000;

(c) in the case of the third fixed penalty notice received, £2000;

(d) in the case of the fourth and any subsequent fixed penalty notice received, £4000.”

## RHAN 4

### Diwygio’r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd

## PART 4

### Amendment to the Public Health Information Regulations

**Diwygio rheoliad 6 (troseddau) o’r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd**

**7.** Yn rheoliad 6(2) ar ôl “yn” mewnosoder “rheoliad 3(1) neu (3) neu”.

**Amendment to regulation 6 (Offences) of the Public Health Information Regulations**

**7.** In regulation 6(2) after “in” insert “regulation 3(1) or (3) or”.

**Diwygio rheoliad 7 (hysbysiadau cosb benodedig) o'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd**

**8.** Yn lle rheoliad 7(5) rhodder—

"(5) Mae swm y gosb benodedig a bennir o dan baragraff 4(c) i fod—

(a) yn achos yr hysbysiad cosb benodedig cyntaf a geir, yn £1000;

(b) yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig a geir, yn £2000;

(c) yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig a geir, yn £4000;

(d) yn achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig a geir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig a geir wedi hynny, yn £10,000."

**Diwygio'r Atodlen i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd**

**9.**—(1) Yn Rhan 1 o'r Atodlen, yn lle "14 o ddiwrnodau" rhodder "10 niwrnod".

(2) Yn Rhan 2 o'r Atodlen, yn lle "14 o ddiwrnodau" rhodder "10 niwrnod".

**Amendment to regulation 7 (Fixed penalty notices) of the Public Health Information Regulations**

**8.** For regulation 7(5) substitute—

"(5) The amount of fixed penalty specified under paragraph 4(c) is to be—

(a) in the case of the first penalty notice received, £1000;

(b) in the case of the second penalty notice received, £2000;

(c) in the case of the third penalty notice received, £4000;

(d) in the case of the fourth and any subsequent fixed penalty notice received, £10,000."

**Amendment to the Schedule to the Public Health Information Regulations**

**9.**—(1) In Part 1 of the Schedule for "14" substitute "10".

(2) In Part 2 of the Schedule for "14" substitute "10".

*Vaughan Gething*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Am 2.04 p.m. ar 11 Rhagfyr 2020

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers
At 2.04 p.m. on 11 December 2020

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-20700-2

£6.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/1521